



Penmoelallt... coetir ar goll mewn amser.

Gwefan:

[www.merthyrnats.org.uk](http://www.merthyrnats.org.uk)

Lleoliad GPS: N 51°46.29

W

W 003°25.42

Cyfesurynnau Arolwg

Ordans: 019:090



# FFOSILIAU

## Byddwch yn Baleontolegwr!



Byddwch yn baleontolegwr! Oes gennych chi'r sgiliau i ddod o hyd i ffosiliau o amgylch Penmoelallt? Darllenwch gefn y daflen hon am wybodaeth ar y ffosiliau efallai y dewch o hyd iddynt.

## Beth i'w wneud ar ôl dod o hyd i ffosil!

Beth ddylwn ni ei wneud ar ôl dod o hyd i ffosiliau?

Pe bawn ni'n ddatgloddio pob un o'r ffosiliau o amgylch Penmoelallt fyddai ddim ar ôl a byddai angen offer o bwys arnom ni!

Felly, gwnewch rwbadau o'r ffosiliau rydych chi'n dod o hyd iddynt o amgylch Penmoelallt. Defnyddiwch bapur trasio a dechrau chwilio! Ydych chi'n gallu dod o hyd i bob un o'r 4 prif fath o ffosil o amgylch Penmoelallt ac, efallai, rhai eraill nad ydynt wedi cael eu darganfod hyd yn hyn!

## Bach o Hwyl: Pa un yw'r eithriad?:

Edrychwch ar y ddwy set o bedwar ffosil, pa rai ddylai ddim fod yno?



Diolch i'n holl wirfoddolwyr ymrwymedig. Ni fyddai Prosiect Coetir Penmoelallt wedi bod yn bosib hebddynt.

# FFOSILIAU: Gwybodaeth

## Beth yw Ffossil?

Pan fo pobl yn meddwl am ffosiliau maent yn meddwl am sgerbydau deinosoriaid ac esgyrn mawr ond mae nifer o fathau o ffosiliau i gael.

Ffosiliau yw olion anifeiliaid neu blanhigion oedd yn arfer bod yn fyw. "Paleontoleg" yw'r enw ar astudio ffosiliau.

## Pa wybodaeth all ffosiliau ei rhoi i ni?

Mae ffosiliau yn rhoi gwybodaeth i ni ar sut roedd anifeiliaid a phlanhigion yn byw yn y gorffennol. Trwy astudio ffosiliau mae'n bosib dod o hyd i oedran y ffossil, sut mae planhigion ac anifeiliaid yn perthyn i'w gilydd a, hyd yn oed, ers pryd mae bywyd wedi bod ar y ddaear. Yn aml, gallwn ni weithio allan ble a phryd roeddent yn byw a defnyddio'r wybodaeth hon i ddarganfod mwy am dirweddau hynafol.

## Adnabod Ffosiliau:

Mae rhai ffosiliau yn hawdd i'w hadnabod ac yn edrych fel anifeiliaid a phlanhigion sydd yn byw heddiw. Er bod modd i ni adnabod rhai ffosiliau yn hawdd, mae nifer o ffosiliau yn cynrychioli anifeiliaid nad ydynt yn bodoli ar y ddaear erbyn hyn. Rydym ond yn gwybod am grwpiau diflanedig fel deinosoriaid, amonitau a thrilobitau trwy edrych ar ffosiliau.



**Braciopodau** - Braciopodau yw ffosiliau sydd yn debyg i gregyn. Mae ganddynt linellau ar draws eu harwyneb ac yn edrych yn debyg i gregyn byddwch chi'n eu gweld ar y traeth heddiw. Mae siawns dda y dewch chi o hyd i un o'r rhain ym Mhenmoelallt heddiw!

**Cwrelau** - Mae Cwrelau wedi'u creu gan anifeiliaid di-asgwrn-cefn bychain sydd yn edrych fel anemoniau môr bychain. Maent yn tyfu gyda'i gilydd ac mae modd iddynt orchuddio ardaloedd enfawr. Mae rhai riffiau cwrel mor enfawr mae modd eu gweld o'r gofod! Mae cwrelau yn wych ar gyfer gweld sut oedd hinsawdd ardal filiynau o flynyddoedd yn ôl. Mae'r rhain hefyd o amgylch Penmoelallt felly cadwch lygaid barcud er mwyn dod o hyd iddynt!



**Gastropodau** - Ffosiliau Gastropodau yw cregyn anifeiliaid yr oeddent yn byw flynyddoedd maith yn ôl. Mae'r cregyn yn edrych fel chwyrladau, maent wedi'u lapio o amgylch eu hunain. Siwr o fod rydych chi'n adnabod un gastropod yn barod, y falwoden! Mae gan y falwoden gragen sydd yn debyg i chwyrladau ond mae ffosiliau gastropod yn fwy anodd i'w darganfod na'r falwoden. Bydd y rhain yn fwy anodd i ddod o hyd iddynt ym Mhenmoelallt na rhai ffosiliau eraill. Siwr o fod, gastropodau Penmoelallt yw ffosiliau malwod y môr o filiynau o flynyddoedd yn ôl!

**Crinoidau** - Crinoidau yw anifeiliaid y môr, mae ganddynt goes a llawer o freichiau ar ben eu coes sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer bwydo. Weithiau, maent yn cael eu hadnabod fel "lili'r môr". Mae'r rhain, fel gastropodau, yn brin ym Mhenmoelallt felly cadwch lygaid barcud i weld a ydych yn gallu dod o hyd i un!



## Pam fo ffosiliau ym Mhenmoelallt?


Yma, ym Mhenmoelallt, mae gennym "Garreg Galch Carbonifferaidd" sydd yn berffaith ar gyfer ffosiliau! Cafod y garreg galch hon ei ffurfio gan waddodion (fel tywod neu fwd). Beth sydd yn wir anghygoel am garreg galch carbonifferaidd yw ei bod yn cael ei ffurfio ar waelod moroedd trofannol! Felly, roedd y ffosiliau rydych chi'n dod o hyd iddynt heddiw ar creigiau rydych chi'n sefyll arny'n nhw arfer bod ar waelod dyfroedd trofannol (fel y Bahamas)!

Mae'r Garreg Galch Carbonifferaidd y gwelwch chi heddiw rhwng 300 miliwn a 360 miliwn o flynyddoedd oed! Mae'r wal cerrig sych o amgylch ein hystafell ddsbarth awyr agored wedi'i chreu gan y creigiau hyn. Ydych chi'n gallu gweld unrhyw ffosiliau yn y wal cerrig sych?

Os nad ydych chi'n gallu dod o hyd i ffossil go iawn, edrychwch ar ochrau'r Bwrdd Cerrig yn yr Ystafell Ddsbarth Awyr Agored!

### Cofiwch gadw at y Côt Cefn Gwlad!

- Byddwch yn ddiogel - cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion.
- Gadewch glwydi ac eiddo fel y maent.
- Gadewch beirianwaith a da byw i fod.
- Diogelwch blanhigion ac anifeiliaid ac ewch â'ch sbwriel adref.
- Cadwch gŵn o dan reolaeth.



### Am wybod mwy?

Ewch i'r gwefannau hyn:

- [www.oum.ox.ac.uk/thezone/fossils](http://www.oum.ox.ac.uk/thezone/fossils)
- <http://en.wikipedia.org/wiki/fossils>
- [www.discoveringfossils.co.uk/](http://www.discoveringfossils.co.uk/)



Hynaf